Preswylfeydd Magnetig

Mae galwad Magnetig 2 am geisiadau ar agor o ddydd Llun 10 Gorffennaf hyd ddydd Mawrth 29 Awst 2023.

Mae'r alwad am geisiadau wedi'i hanelu at artistiaid proffesiynol sy'n gweithio ym maes y celfyddydau gweledol sydd eisoes wedi cyflwyno eu gwaith mewn sawl lleoliad proffesiynol a gydnabyddir gan rwydweithiau celf gyfoes.

Mae'r preswylfeydd erbyn hyn yn eu hail flwyddyn. Gefeillir y preswylfeydd gan baru rhanbarth yn Ffrainc â chenedl ym Mhrydain. Gall artistiaid ddim ond wneud cais am y breswylfa sydd wedi'i pharu â'u rhanbarth neu eu cenedl. Gwelwch y gefeilliadau isod i ddarganfod pa breswylfa sy'n briodol i chi.

Gwlad/ rhanbarth: preswylfa Magnetig 2 y gallwch wneud cais amdani:

Lloegr	→	CAPC (Bordeaux, Nouvelle-Aquitaine)
Gogledd Iwerddon	→	FRAC Grand Large (Dunkirk, Hauts-de-France)
Yr Alban	→	Villa Arson (Nice, Provence-Alpes-Côte d'Azur)
Cymru	→	FRAC Llydaw (Roazhon/Rennes, Llydaw)
Llydaw	→	Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
Hauts-de-France	→	Stiwdios Celf Flax (Belffast, Gogledd Iwerddon)
Nouvelle-Aquitaine	→	Canolfan Gelfyddydol Wysing (Swydd Gaergrawnt, Lloegr)
Provence-Alpes-Côte d'Azur	→	Parc Cove (Helensburgh, yr Alban)

Gweler y ffurflenni cais a'r Cwestiynau Cyffredin isod. Dim ond ceisiadau cyflawn fydd yn cael eu hystyried.

Cyn gwneud cais, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y cyflwyniad i'r lleoliad ar dudalen y breswylfa.

Dewis yr enillwyr

Bydd gan bob preswylfa ei phwyllgor dewis ei hun.

Cyfansoddiad y pwyllgor dewis:

- Cyfarwyddwr y breswylfa
- Rhywun adnabyddus yn y maes diwylliannol yn rhanbarth y breswylfa
- Cyfarwyddwr y breswylfa a efeillir
- Aelod o bwyllgor artistig Prosiectau Celf Fluxus
- L'Institut français du Royaume-Uni
- Cynrychiolydd o bartneriaid ariannu Prydain

Meini prawf dewis:

- Uchelgais artistig yn yr ymarfer proffesiynol sydd wedi'i wreiddio yn y celfyddydau gweledol cyfoes
- Pa mor berthnasol yw cynnig yr artist yng nghyd-destun y breswylfa
- Cymhelliant i ymgymryd â phreswylfa ryngwladol ar yr adeg hon yng ngyrfa'r artist

Bydd yr artistiaid ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad drwy Sŵm.

Cysylltiadau

fluxusartp@gmail.com

angela.blanc@institut-francais.org.uk

fabio.altamura@artscouncil.org.uk